**Manyleb Swydd**

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Rheolwr Ymgysylltu De Cymru |
| **Prosiect:** | Sgiliau Bwyd a Diod Cymru |
| **Lleoliad:** | Unrhyw un o swyddfeydd Mentera yng Nghanolbarth neu Dde Cymru, neu o bell yn ôl y polisi hybrid |
| **Rheolwr Llinell:** | Rheolwr Rhaglen Sgiliau Bwyd a Diod Cymru |
| **Cyflog:** | £35,337 |
| **Contract:** | Penagored (prosiect presennol wedi'i ariannu hyd at 31/03/2026) |

**Mae hwn yn gyfle gwych i weithio ar brosiect yn niwydiant bwyd a diod bywiog Cymru sy'n hanfodol i dwf economi Cymru.**

## Cefndir

Cyflwynir Sgiliau Bwyd a Diod Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Ei hethos craidd yw datblygu gweithlu medrus a galluog sy'n hanfodol i gynyddu cynhyrchiant ac effeithlonrwydd, ac i sbarduno arloesedd a thwf cynaliadwy.

Mae'r rhaglen Sgiliau Bwyd a Diod Cymru yn cynnig cymorth i fusnesau bwyd a diod sydd â ffocws ar y diwydiant prosesu a gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru i sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau a'r hyfforddiant cywir ar gyfer eu busnes a'r diwydiant ehangach. Mae'n galluogi gweithwyr i rannu gwybodaeth a phrofiadau gyda chyd-weithwyr ar yr un pryd â chynyddu hyder a hyblygrwydd yn y gweithle sy'n gwneud i weithwyr deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Gan weithio ar draws yr wyth prif sector yn niwydiant bwyd a diod Cymru, ei nod yw paratoi gweithwyr ledled Cymru i addasu i newidiadau a chyfleoedd ym maes gweithgynhyrchu bwyd, gan gynnwys heriau technegol, busnes ac amgylcheddol. Bydd gweithlu medrus yn gallu datblygu gyrfaoedd yn y diwydiant bwyd ym mhob rhan o Gymru.

### Nod

Arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno i gryfhau'r cysylltiadau rhwng pobl ifanc, y byd academaidd a'r diwydiant bwyd a diod drwy nifer o ymyriadau a digwyddiadau busnes ac academaidd wedi'u cynllunio.

Bydd calendr uchelgeisiol o weithgareddau angen eu rheoli a'u cyflwyno gan gyflwyno gweithgareddau newydd yn ogystal â chysoni ac ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol a gyflwynir mewn ysgolion i sicrhau bod WFDI yn cael ei ystyried yn sector deniadol ar gyfer boddhad mewn gyrfa, dilyniant gyrfa a dewis ledled Cymru.

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd hefyd gydweithio a gweithio'n agos gyda'r canlynol:

- Rheolwyr a swyddogion yn y tîm Gweithlu a Marchnata i gynllunio a threfnu calendr o fentrau a gweithgareddau gan gynnwys digwyddiadau uchel eu proffil i hyrwyddo'r gwasanaeth a gynigir
- Rhaglenni Bwyd a Diod eraill yn Mentera i sicrhau dull gweithredu syml ar gyfer cipio data, gwerthuso a chysylltu â chleientiaid, gan wella profiad cyffredinol cleientiaid.
- Rhaglenni canolog Mentera ynghyd â rhaglenni eraill Mentera

**Prif Gyfrifoldebau**

**Datblygu Prosiectau a Darparu Gwasanaethau**

- Arwain a rheoli y datblygiad a darpariaeth gwybodaeth gyrfaoedd, gan sicrhau fod partneriaethau strategol yn cael eu creu rhwng busnesau ac academia er mwyn darparu nifer o raglenni led-led Cymru.
- Creu calendr o weithgareddau er mwyn cyflwyno gweithgareddau newydd yn ogystal â chysoni ac ychwanegu gwerth at gynlluniau presennol a gyflwynir mewn ysgolion i sicrhau bod Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn cael ei ystyried yn sector deniadol ar gyfer boddhad mewn gyrfa, dilyniant gyrfa a dewis ledled Cymru.
- Arwain a chydlynu datblygiad adnoddau er mwyn ychwanegu gwerth i cyflawni nod y rhaglen
- Sicrhau bod Sgiliau Bwyd a Diod Cymru yn cael ei gynrychioli mewn digwyddiadau allweddol i'r diwydiant a digwyddiadau cysylltiedig eraill.
- Creu a rheoli cysylltiadau allweddol ym maes addysg, fel cynghorwyr gyrfa, i ganfod a llenwi bylchau mewn gwybodaeth e.e. prentisiaethau ym maes addysg
- Cynllunio a datblygu cynlluniau a fydd yn ceisio cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar brentisiaethau a hyfforddiant yng Nghymru drwy sicrhau bod rhwydweithiau cynhwysfawr ac adnoddau marchnata ar gael i fusnesau ar fanteision a phosibiliadau prentisiaethau ar bob lefel
- Gweithio ochr yn ochr â Rheolwyr Datblygu'r Gweithlu i ganfod bylchau mewn sgiliau mewn Busnesau Bwyd a Diod, gan sicrhau bod defnydd eang o'r Hysbysfwrdd Swyddi a'i fanteision yn cael ei wreiddio mewn unrhyw gynlluniau gweithredu.
- Arwain a datblygu Sioe Deithiol Gyrfaoedd Ysgolion Gweithlu Bwyd Cymru – ymgyrchoedd ddwywaith y flwyddyn i ddarparu llwyfan i'r rheini sy'n chwilio am gyfleoedd medrus yn y diwydiant bwyd a diod i gwrdd wyneb yn wyneb â chyflogwyr blaenllaw o bob maint yn y diwydiant, sy'n awyddus i recriwtio talent newydd a/neu gynnig mewnbwn ar NPD drwy fentrau cystadleuol.
- Gweithio gyda rheolwr y prosiect ac arweinwyr tîm eraill i reoli gwaith a chyflawniadau swyddogion cefnogi'r rhaglen.
- Gweithio ochr yn ochr â thîm Marchnata Sgiliau Bwyd a Diod Cymru i sicrhau cyrhaeddiad uchelgeisiol a chynhwysfawr yr ymgyrch farchnata a chyfathrebu

MENTERA

Gweithlu Bwyd Cymru.
- Sicrhau bod y tîm yn gweithio’n agos ag aelodau eraill o dîm y rhaglen bwyd a diod yn Mentera i sicrhau meddwl cydlynol o ran teithiau cleientiaid, adrodd ar allbwn a/neu weithgareddau marchnata a chyfathrebu.
- Sicrhau bod y ddarpariaeth rhaglenni’n cael ei throsglwyddo’n barhaus i fuddiolwyr presennol a newydd.
- Gweithio’n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid a sefydliadau partner fel yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Ganolfan Byd Gwaith a’r Byrddau Sgiliau Rhanbarthol i ddarparu cymorth cynhwysfawr i gleientiaid a sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at gymorth ychwanegol lle bo hynny’n briodol.
- Arwain ar pob gweithgaredd a datblygiad mentrau / ymgysylltu â chleientiaid yn y rhanbarth a sicrhau bod targedau daearyddol yn cael eu cyrraedd.

**Monitro a Gwerthuso**
- Rheoli a monitro’r gyllideb a osodir gan Reolwr y Rhaglen, gan sicrhau gwerth am arian a darpariaeth gydlynol lle bo hynny’n ymarferol
- Sicrhau bod adroddiadau cywir a pherthnasol yn cael eu darparu ar ddiwedd y gwaith gyda phob grŵp/unigolyn a bod allbynnau’n cael eu monitro, eu hadolygu a’u hadrodd yn gywir i Reolwr y Rhaglen a Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion y contract, ac er mwyn bodloni gofynion Archwilio perthnasol
- Cadw cofnodion manwl o’r holl weithgareddau a gwaith papur er mwyn sicrhau bod targedau’r prosiect yn cael eu monitro a’u cyflawni, yn unol â systemau adrodd a monitro’r prosiect a Llywodraeth Cymru
- Bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddogfennau ar gyfer gwaith a wneir yn y rhanbarth yn gyfredol ac yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion y cynllun
- Llunio adroddiad terfynol ar ddiwedd y gwaith gyda phob busnes, sy’n adrodd ar gryfderau a gwendidau’r gweithgarwch/cymorth a dderbyniwyd
- Sicrhau bod canllawiau caffael y rhaglen yn cael eu dilyn, gan gynnwys creu, cynnal a chadw systemau rheoli effeithiol i fodloni gofynion archwilio perthnasol

**Arall**
- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth i gwsmeriaid, cydraddoldeb ac amrywiaeth, iechyd a diogelwch a bioddiogelwch yn cael eu bodloni
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill, a chyfrannu at aseiniadau bwyd cysylltiedig a ymgymerir gan Mentera yn ôl y gofyn
- Cynrychioli Mentera yn ôl y galw

**Sgiliau a Phrofiad**

**Hanfodol**
- Addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn busnes, economeg, amaethyddiaeth, bwyd, tir, neu bwnc perthnasol
- Dealltwriaeth drylwyr o’r sector bwyd-amaeth yng Nghymru, gyda’r gallu i ganfod yr ymchwil a’r wybodaeth ddiweddaraf sy’n berthnasol i’r sector.
- Dealltwriaeth eang o ddatblygu polisi, yn ogystal â strategaethau a pholisïau

MENTERA

Llywodraeth Cymru
- Profiad amlwg o reoli ac ymgysylltu â'r sector addysg / pobl ifanc / cleientiaid / busnesau naill ai wyneb yn wyneb, drwy e-bost neu dros y ffôn
- Gallu gwerthuso a defnyddio tystiolaeth mewn ffordd ymarferol a chlir sy'n berthnasol i'r gynulleidfa a meddwl yn greadigol, gan fynegi manteision, anfanteision a risgiau gwahanol opsiynau
- Gallu asesu a chael dealltwriaeth glir o anghenion cleientiaid, a'u cefnogi yn unol â'u hanghenion unigol
- Sgiliau a phrofiad o ddatblygu rhwydweithiau rhagorol ar wahanol lefelau (e.e. cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol) o fuddiolwyr posibl i weithwyr proffesiynol mewn sefydliadau partner
- Sgiliau trefnu a chydlynu ardderchog
- Gallu datblygu ac integreiddio gwasanaethau newydd mewn modd effeithiol ac amserol
- Sgiliau cyflwyno a rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i wneud a chyfleu penderfyniadau anodd mewn ffordd ddiduedd
- Gallu cymell ei hun yn rhagweithiol, gan dderbyn cyfrifoldeb am bennu ac adolygu blaenoriaethau ar gyfer cyflawni targedau, gyda ffocws clir ar ansawdd
- Ymwybyddiaeth o safonau diogelwch bwyd a gofynion rheoleiddiol yn y diwydiant
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog rhagorol (Cymraeg/Saesneg) yn llafar ac ysgrifenedig.
- Sgiliau TG lefel uchel gan gynnwys pecynnau Microsoft, cronfeydd data a'r we
- Trwydded yrru lawn a char at eich defnydd (gallai'r rôl olygu teithio ledled Cymru)
- Bod ar gael i weithio nosweithiau a phenwythnosau yn achlysurol

**Dymunol**
- Profiad blaenorol o gyflawni mentrau rhwng pobl ifanc, y byd academaidd a busnesau.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r swydd hon, gallwch gysylltu â Kate Rees, Rheolwr Rhaglen, ar 07964 354660 neu kate.rees@mentera.cymru

**Mae gofynion y swydd hon yn golygu ei bod wedi eu categoreiddio fel a ganlyn:**

**Trwydded yrru a char i'w ddefnyddio at ddibenion busnes:**

- Diangen
- Dymunol
- Hanfodol ✓

**Gallu yn yr iaith Gymraeg:**

- Gwrando/Siarad: Lefel 5
- Darllen/Deall: Lefel 4
- Ysgrifennu: Lefel 4

*Mae Mentera yn darparu hyfforddiant sgiliau iaith i bob aelod o staff sy'n awyddus i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.*

**Sut i ymgeisio**

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy gwblhau ffurflen gais a ffurflen cyfleoedd cyfartal a'u dychwelyd at swyddi@mentera.cymru erbyn **10 yb, dydd Mercher, 23 Gorffennaf 2025**

**Cyfweliadau**

Byddwn yn cynnal y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon yn swyddfa Aberystwyth ar ddydd Gwener, 25 Gorffennaf 2025. Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

**Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae Mentera wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth a chreu amgylchedd cynhwysol yn y gweithle. Rydym o'r farn y gellir gwneud hyn drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o bobl o lawer o gefndiroedd gwahanol. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob rhan o'r gymuned, beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu neu oedran. Er mwyn cefnogi ein cyflogeion i sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywyd personol, am rhan fwyaf o'n swyddi byddwn yn ystyried cynigion i weithio'n hyblyg neu rannu'r swydd.